MALDWYN a DORIS THOMAS ar gymwynasau

# GRACE GWYNEDDON DAVIES

## -"gwraig fawr" mewn mwy nag un ystyr

YR OEDD o, Robert Gwyneddon Davies, yn aelod o deulu o Fethodistiaid amlwg yng Nghaernarfon, yn fab John Davies, 'Gwyneddon', cyhoeddwr *Charles o'r Bala* yn y pum-degau, golygydd cyntaf *Y Goleuad* yn 1869, emynydd a blaenor amlwg yng nghapel mawr Engedi yn y dref. Am flynyddoedd maith, ar lwyfannau Rhyddfrydiaeth a dirwest ac addysg yr hen sir yr oedd y tad yn ddyn cyhoeddus, yn ddyn o bwys.

'Doedd y mab ddim mor amlwg â'i dad, cyfreithiwr llwyddiannus yn y dref oedd o, ac eto mae darllen am yrfa Robert Gwyneddon Davies yn dod â rhywun i gyswllt â'r rhan fwyaf o swyddi ac anrhydeddau cyhoeddus a oedd mor bwysig ym mlynyddoedd tröad y ganrif yn sir Gaernarfon.

Bu'n aelod o gyngor y dref, felly'r cyngor sir a'r pwyllgor addysg, yn gadeirydd hwnnw yn y dau-ddegau, yn aelod o lys llywodraethwyr Coleg y Gogledd, ei hen goleg, yn ynad heddwch, yn uchel siryf y sir.

Anrhydeddau a oedd am ddod i'w ran oedd y rhan fwyaf o'r rhain. Ond yn 1907 yr oedd eisoes yn aelod o gyngor y dref ac yn faer etholedig.

A dyna beri penbleth i edmygwyr Robert Gwyneddon Davies. 'Roedd y darpar faer yn ŵr ffasiynol, a bydol-ddoeth, wedi hen arfer â theithio 'mhell tu draw i'w fro, yn gallu elwa ar fyd cyfforddus ei dad, yn gryn lenor, wedi cyhoeddi ei gyfieithiad Saesneg o'r *Bardd Cwsg* yn 1897, yn . . . Ond roedd o hefyd yn hen lanc tri deg saith oed. Yn hynod o *eligible*, ond

> 'nid yw wedi gweld neb yn ddigon anwyl (*sic*) i'w chymeryd yn wraig. Oherwydd hynny pryderir pwy fydd y Faeres.'

Geiriau pryfoclyd 'J.H.', golygydd *Y Brython* yn Lerpwl ydi'r rhain. Fel dyn papur newydd llygadog yn y ddinas honno, ac oherwydd ei gysylltiadau agos â Chaernarfon, yr oedd 'J.H.' yn debyg o fod yn gwybod bod dyddiau hen lencyndod Robert Gwyneddon Davies yn dirwyn i ben.

* * * *

GRACE ROBERTS oedd hi, merch teulu 'Larkfield', Anfield, Lerpwl, y teulu'n hanu o Fôn, yn gefnog, ac wedi drachtio gwin chwerw felys yr alltud am flynyddoedd ar lannau Mersi.

Grace oedd merch hynaf y teulu, merch gerddorol iawn iawn a gafodd sawl braint a chyfle i feithrin ei doniau.

'Roedd hi'n bianydd da — graddiodd yn L.R.A.M. Yr oedd ganddi hefyd lais soprano hynod o gyfoethog, ac wedi cwblhau'r cwrs piano fe gafodd hyfforddiant canu am bum mlynedd gan y bariton Charles Stanley, gan arbenigo ar gerddoriaeth yr oratorio.

Blwyddyn wedyn o hyfforddiant pellach ym Mharis gyda chwaer y cerddor Manuel Garcia. O Baris am yr Eidal, dysgu Eidaleg a mwydo'i hun yng ngherddoriaeth y wlad honno. Bellach roedd galw am glywed Grace Roberts mewn cyngerdd sanctaidd ac oratorio.

Ac felly y daeth hi i eisteddfod genedlaethol Caernarfon yn Awst 1906. Yno, yn amlwg yn yr orsedd a'r pwyllgorau yr oedd Robert Gwyneddon Davies, yn ddi-briod.

Nid rhyw ehedydd bach swil oedd aeres 'Larkfield', Anfield, erbyn eisteddfod Caernarfon. 'Roedd hi yn ferch wyth ar hugain oed, wedi arfer â salons Paris ac academïa'r Eidal.

Nid yn ofer y gwariwyd arian ei thad yn gerddorol nac yn gymdeithasol — 'roedd gan Grace Roberts *'poise'* — y peth hwnnw a oedd mewn bri ymysg merched yn y dyddiau Edwardaidd pell hynny, y peth hwnnw a ddiflannodd mor gyflym ar ôl y rhyfel mawr.

* * * *

Y MAE yna un stori fach dlos ar lafar ym mro Caernarfon am y modd y bu i Robert Gwyneddon roi ei galon i'r gantores o Lerpwl. Yr oedd *Y Brython* yn sobor o awyddus am bwysleisio mai fel

> *'datgeiniaid cyflogedig'*

yr oedd Grace Roberts yn ymddangos yn yr eisteddfod, does yna'r un gair amdani yn cystadlu ar y llwyfan yn y papur, nac yn wir yn y papurau eraill fel *Y Genedl* a'r *Herald* ychwaith.

Yn sicir ddigon, yr *oedd* y gantores ymysg yr artistiaid a fu'n canu yn y cyngerdd Celtaidd ar nos Wener y 'steddfod, y pafiliwn mawr dan ei sang, tua deuddeg mil o gynulleidfa, a

> *'Miss Grace Roberts (mewn diwyg Cymreig)'*

ar y llwyfan, chwedl *Y Brython.*

Ond yn ôl y traddodiad lleol yr oedd Grace Roberts wedi cystadlu yn yr eisteddfod yn y brif unawd ar gyfer soprano. Ac wedi colli. Colli i Mary King Sarah, y soprano ddawnus o Dalysarn. Roedd hi'n

> *'gystadleuaeth fendigedig'*

yn ôl *Yr Herald Cymraeg,* roedd gan Mary King Sarah

> *'lais cyfoethog a mynegiant perffaith.'*

Nid rhyfedd i chwarelwyr Nantlle ei chymeradwyo hi nes yr oedd to llwyd y pafiliwn yn codi. Felly, yn ôl y stori, er manteision Lerpwl a Pharis a'r Eidal colli fu hanes Grace Roberts yng Nghaernarfon.

Ond chollodd hi ddim chwaith. Yn ôl y stori fe welodd Robert Gwyneddon y dagrau o siom ar ruddiau'r gantores dlos o Lerpwl wedi'r cystadlu, wedi'r beirniadu. Ac yno, yng nghefn llwyfan pafiliwn Caernarfon, yn ddisymwth, yr oedd o mewn cariad, yr eiliadau hynny, yn syllu i'r llygaid disglair gleision mawr.

Dyna'r stori o'r fro.

* * * *

OND TYBED a fyddai un o gantorion proffesiynol yr ŵyl fawr wedi cystadlu o gwbwl? Dim ond enwau'r buddugwyr sydd fel arfer ym mhapurau'r cyfnod. A beth am *'poise'* yr hyfforddiant maith — a fyddai Grace wedi ymollwng yn gyhoeddus i ddagrau'i siom — os y bu hi'n cystadlu o gwbwl?

Yn gerddorol, eisteddfod Mary King Sarah oedd eisteddfod fawr Caernarfon. Y hi a enillodd gystadleuaeth y mezzo soprano hefyd — a'r ddeuawd ar gyfer soprano a thenor.

Wedi ymserchu, wedi'r eisteddfod, rhagor o ganu. Bu Grace Roberts yn canu yn Llundain, yna yn Lerpwl. Mae'n od gweld mai ar yr ail o Fawrth 1907, yng nghyngerdd y 'Cymric' yn y Sun Hall, y canodd hi am y tro cyntaf yn ei dinas ei hun.

Y noson honno fe'i clywyd yn canu *'Mio caro bene', 'Birthday'* a'r *'Eos'.*

Yn yr un mis yr oedd hi a'i chariad yn amlwg yng nghyfarfod cyntaf cymdeithas newydd — Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru — y fo'n cael ei ddewis yn aelod o'r pwyllgor gweinyddol. Bu'r gymdeithas yn bwysig bwysig ym mywydau'r ddau byth ar ôl hyn.

Yn Llundain y bu'r briodas ar 14 Ebrill 1909, yng nghapel Charing Cross — capel a oedd yn gartref ysbrydol nifer o gefnogwyr eiddgar y Gymdeithas Alawon Gwerin ifanc — megis Mary Davies, y gantores, Ruth Herbert Lewis ac yn ddiweddarach yr hudolus ddawnus Morfudd Llwyn Owen.

O Lundain am Southampton a'r fferi am y mis mêl yn San Malo. Erbyn 28 Ebrill roedd Grace — Grace Gwyneddon Davies — yn canu prif ran y soprano yn yr Eleias yn yr Wyddgrug.

* * * *

YN Y 'Graianfryn', tŷ sylweddol iawn ar fryncyn rhwng y Ffingar yng Nglanrhyd a phentref Llanwnda, dair milltir o Gaernarfon ar y ffordd am Bwllheli, y bu Robert a Grace Gwyneddon Davies fyw yn ystod eu bywyd gyda'i gilydd.

Mae yno olygfeydd o'r Wyddfa ar y dde ac o'r Fenai a Môn ar y chwith o'r tŷ, ac yma yn y lle braf hwn y gwelwyd grasusau 'Larkfield', Lerpwl a salons Charing Cross yn cael eu huno â syberwyd Fethodistaidd Caernarfon.

Agorwyd dorau'r dreif led y pen ar gyfer lletygarwch Grace a Robert Gwyneddon Davies, ac yma ym mharlyrau'r 'Graianfryn' y cynhaliwyd y nosweithiau diwylliannol hynny a fu'n destun syndod ardal gyfan oherwydd eu croeso a'u chwaeth.

Yn y gaeaf, a'r gwynt yn chwythu yn y pinwydd ar gyrion yr ardd, yn niddosrwydd y parlwr mawr y bu

> *'Many a charming evening',*

chwedl Amy Preece o Gaernarfon, aelod o gylch dethol — a Seisnig — y Gymdeithas Alawon Gwerin yn y dyddiau cynnar.

Ac ar nosau o haf nid oedd unman yn Arfon mor hardd â gardd y 'Graianfryn', y blodau dramatig enwog yn llenwi'r lle â'u lliwiau ac â'u persawr, a'r lawntiau perffaith yn ymestyn draw am y gwyll.

* * * *

SAESNEG oedd iaith Grace Gwyneddon Davies gan amlaf, er bod ei gŵr yn amlwg am ei safiad tros y Gymraeg yng nghynghorau a phwyllgorau cyhoeddus Seisnigaidd iawn tref Caernarfon yn y blynyddoedd hynny.

Yr oedd o'n fwy o lenor nac o gyfreithiwr ym marn E. Morgan Humphreys, golygydd *Y Genedl Gymreig* bryd hynny, ac yn sicr fe ysgrifennodd Robert Gwyneddon Davies, fel ei dad o'i flaen, lawer o bethau ar gyfer y papur newydd hwn a'i gymar bach Saesneg y *North Wales Observer and Express.*

Roedd gŵr y 'Graianfryn' hefyd yn gasglwr llawysgrifau — y mae casgliad pwysig 'Gwyneddon' yn llyfrgell Coleg y Brifysgol, Bangor, yn dystiolaeth am ei farn yn y maes hwn.

Yr Eisteddfod Genedlaethol, y Gymdeithas Alawon Gwerin, y blaid Ryddfrydol, roedd yna ddigon o bethau cyffredin rhwng Grace a Robert Gwyneddon Davies.

Anaml y clywir amdani hi yn